**Canllaw cynllunio cyswllt byr gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC)**

## Gwneud penderfyniadau da ynghylch cyswllt ar gyfer plant sydd â chynllun mabwysiadu

Mae angen i waith cynllunio cyswllt ar gyfer plant sydd â chynllun mabwysiadu ddechrau cyn gynted â phosibl, ond dylid cadw anghenion hirdymor y plentyn mewn cof ac nid dim ond ei sefyllfa bresennol.

Mae'r templed a'r nodiadau cyfarwyddyd hyn wedi'u cynllunio i'w defnyddio ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd cynhwysfawr yng Nghanllawiau Arfer Da'r GMC, yn enwedig yr un Cyswllt ynghyd â'r rhai 'Gweithio gyda Rhieni Biolegol' a 'Cymorth Mabwysiadu' ac offeryn cynllunio cyswllt cysylltiedig y GMC. Y bwriad yw y byddant yn cael eu defnyddio i gynorthwyo gyda gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau ar yr adeg pan fydd opsiynau sefydlogrwydd yn cael eu hystyried gyntaf ar gyfer plentyn.

Egwyddor sylfaenol yw, 'Mae cynllunio cyswllt ar gyfer plant mewn lleoliad parhaol yn broses ddeinamig, yn hytrach na digwyddiad untro' (Neil, 2015).

Gellir lawrlwytho'r offeryn cynllunio gwreiddiol y mae hyn wedi'i seilio arno o adran mynediad agored 'Contact After Adoption' gwefan Research in Practice, sy'n cynnig gwybodaeth a chyfarwyddyd manwl ar ddefnyddio'r model, gydag enghreifftiau o astudiaethau achos, ochr yn ochr â chyfoeth o adnoddau eraill i ymarferwyr a chyfeiriadau at yr ymchwil y mae wedi'i seilio arni.

Mae'r templed wedi'i seilio ar fodel 5 cam a ddatblygwyd gan yr Athro Elsbeth Neil a Polly Baynes, gweithiwr cymdeithasol annibynnol a hyfforddwr. Caiff ei lywio gan yr ymchwil sydd ar gael ar yr hyn sy'n penderfynu llwyddiant neu fel arall cyswllt.

- **Cam 1: Ystyried beth yw pwrpas cyswllt ar gyfer y plentyn hwn.**
- **Cam 2: Nodi'r cryfderau a'r risgiau i bob person cysylltiedig.**
- **Cam 3: Llunio cynllun cyswllt dros dro mewn perthynas â phob person sydd â chysylltiad arwyddocaol â'r plentyn.**
- **Cam 4: Datblygu cynllun cymorth dros dro ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig i helpu i sicrhau bod cyswllt yn ystyrlon ac y gellir ei gynnal.**
- **Cam 5: Adolygu'r cynllun pan fo angen newidiadau neu mewn ymateb i gais gan un o'r rhai sy'n gysylltiedig.**

Mae'r awduron yn pwysleisio *"Er mai ar gyfer plant y mae cynlluniau cyswllt maent yn cael eu deddfu gan oedolion ac efallai y byddant yn cael eu helpu neu eu rhwystro gan berthnasau rhyngddynt a'r cymorth sy'n (neu nad yw'n) bodoli."*

Nod y templed yw sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer cyswllt ôl-fabwysiadu yn myfyrio ar y goblygiadau hirdymor a'r angen i adolygu'r trefniant wrth i'r plentyn ddatblygu a'r amgylchiadau newid dros amser. Mae'n osgoi canolbwyntio'n llwyr ar ddileu'r holl risg mewn trefniadau cyswllt, nad yw'n bosibl. Mae cyfyngiadau ar ddull sydd wedi'i seilio ar osgoi risg yn unig:

- Gellir rhoi pwysau gormodol ar risgiau posibl nad ydynt yn cael eu cydbwyso â buddion hirdymor tebygol i'r person mabwysiedig o ran ei hunaniaeth.

- Mae wedi'i seilio ar gipolwg o'r sefyllfa ar adeg benodol mewn amser ac yn anwybyddu'r posibilrwydd o newid.
- Mae nodweddion ac anghenion pawb sy'n gysylltiedig yn effeithio ar lwyddiant neu fel arall cyswllt dros amser e.e. y plentyn, y rhieni mabwysiadol, y perthnasau biolegol ac eraill.
- Efallai na fydd pwysigrwydd hanfodol bodloni anghenion cymorth pawb sy'n gysylltiedig a sut y gallai'r rhain newid yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Y gobaith yw y bydd yr offeryn hwn yn ddefnyddiol i ymarferwyr wrth ddarparu proses rhesymegol, fesul cam i asesu anghenion cyswllt plant ac yn darparu rhesymeg dros gynllunio cyswllt, sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ymchwil ddibynadwy.

**Fel man cychwyn, dylid ystyried cyswllt ar gyfer yr holl bobl sydd yn neu sydd wedi bod yn arwyddocaol i'r plentyn e.e. y rhai a allai fod yn rhan o Waith Taith Bywyd y plentyn**

**Cam Un: Beth yw anghenion presennol y plentyn hwn yn ogystal â'i anghenion posibl yn y dyfodol mewn perthynas â chyswllt?**

Ystyriwch pa rai o'r anghenion canlynol ar gyfer y plentyn hwn y gall pob un o'r bobl uchod eu bodloni?

- Adeiladu neu gynnal perthnasau.
- Sicrhau bod y plentyn yn cael ei garu a'i gofio.
- Lleddfu poen gwahanu a cholled.
- Rhoi caniatâd i ymgartrefu mewn teulu newydd.
- Cefnogi gwneud iawn ac adfer ar ôl cam-drin.
- Darparu gwiriad realiti.
- Sicrhau bod perthnasau biolegol yn fyw ac yn iach.
- Helpu plant i ddeall eu hanes a'u hunaniaeth (yn enwedig ar gyfer plant du a lleiafrifoedd ethnig).
- Cefnogi gwaith stori bywyd a galluogi plant i ofyn cwestiynau am pam nad ydynt yn byw gyda'u rhieni biolegol.

Baynes and Neil, (2015)

Dylid ystyried cyswllt uniongyrchol ac o bell bob amser lle bynnag y bo modd, ond os nad yw cyswllt uniongyrchol neu o bell yn cael ei ystyried yn ddiogel gydag unrhyw un o'r bobl a nodwyd ar yr adeg hon, ym mha ffordd arall y gellir bodloni'r anghenion hyn?

**Cyfarfodydd cychwynnol**

Mae cyfarfod wyneb yn wyneb wedi'i gefnogi'n dda rhwng darpar fabwysiadwyr a'r teulu biolegol, lle bynnag y bo'n bosibl, yn ffordd dda o ddechrau meithrin ymddiriedaeth ac empathi, sef y sylfeini ar gyfer cyswllt ystyrlon a pharhaus o unrhyw fath. Dylai'r cyfarfodydd hyn fod yn opsiwn diofyn ac ni ddylid eu diystyru heb resymau da. Gall hyblygrwydd o ran amseriad cyfarfodydd o'r fath fod yn ddefnyddiol er mwyn osgoi cyfnodau o straen a gorbryder eithafol i bawb sy'n gysylltiedig ac amlhau i'r eithaf y siawns o ganlyniad cadarnhaol.

**Cam Dau: Beth yw'r cryfderau a'r risgiau?**

Ystyriwch y cryfderau a'r risgiau presennol mewn perthynas â phob person sy'n gysylltiedig cyn llunio cynllun cyswllt dros dro. Bydd angen ystyried nodweddion darpar fabwysiadwyr yn y cam cysylltu a pharu, pan ellir adolygu'r cynllun.

Yn ôl ymchwil, mae'r ffactorau canlynol yn gysylltiedig â naill ai cyswllt buddiol neu niweidiol. Cofiwch mai'r gobaith yw y bydd cyswllt yn parhau trwy gydol plentyndod ac er y gallai'r rhain fod yn ffactorau rhagfynegol, wedi'u seilio ar brofiad cyswllt ar adeg cynllunio, efallai y bydd rhai wedi newid ar adeg cysylltu/paru ac efallai y byddant yn newid eto wedyn, gan ofyn am adolygiad o'r cynllun cyswllt.

**Ffactorau mewn perthynas â'r plentyn**

| CRYFDERAU | RISGIAU |
|---|---|
| **Ffactorau yn y plentyn sy'n gysylltiedig â chyswllt cadarnhaol:** | **Ffactorau yn y plentyn sy'n gysylltiedig â chyswllt anodd neu aflonyddgar:** |
| Mae’r plentyn wedi’i roi i’w fabwysiadu yn faban. | Mae plentyn hŷn â pherthynas drafferthus/trawmatig â pherthynas biolegol. |
| Dim perthynas cyn lleoli â pherthynas fiolegol. | Mae’r plentyn wedi’i wrthod, wedi byw gyda nifer o berthnasau biolegol. |
| Perthynas gadarnhaol/niwtral cyn lleoli. | Problemau iechyd meddwl/ymddygiadol mawr. |
| Diffyg problemau iechyd meddwl/ymddygiadol mawr. | Ymlyniad/lleoliad ansicr â’r gofalwyr presennol. |
| Ymlyniad a lleoliad sicr â’r gofalwyr presennol. | Nid yw’r plentyn eisiau cyswllt o’i wirfodd, mae ofn arno. |
| Datblygiad seicogymdeithasol iach. | Mae’r plentyn yn ofnus wrth ddychwelyd i leoliad/mae ei ymddiriedaeth mewn gofalwyr wedi’i danseilio. |
| Mae’r plentyn eisiau cyswllt o’i wirfodd, nid oes ofn arno. | Mae gan y plentyn atgofion negyddol. |
| Mae gan y plentyn atgofion cadarnhaol. | Mae’r plentyn yn ail-ddioddef trawma/cael ei orlethu gan gyswllt. |
| Nid yw'r plentyn wedi gweld trais/nid yw’n dynwared trais. | Mae’r plentyn wedi gweld trais/mae’n dynwared trais. |

**Ffactorau mewn perthynas â pherthnasau biolegol sy’n oedolion**

| CRYFDERAU | RISGIAU |
|---|---|
| **Ffactorau yn y fam fiolegol sy'n gysylltiedig â chyswllt cadarnhaol:** | **Ffactorau yn y fam fiolegol sy'n gysylltiedig â chyswllt anodd neu aflonyddgar:** |
| Nid yw erioed wedi bod yn un o brif ofalwyr y plentyn. | Nid yw'n derbyn y lleoliad neu mae’n ei danseilio. |
| Mae’n derbyn ac yn cefnogi’r lleoliad, yn cadarnhau’r gofalwyr newydd. | Mae’n mynnu cynnal rôl fel prif ofalwr, mae’n annog y plentyn i beidio â charu’r teulu newydd. |
| Ymagwedd adeiladol a chydweithredol. | Mae wedi cam-drin yn ddifrifol neu achosi trawma difrifol i blentyn yn y gorffennol (gan gynnwys amlygiad i drais domestig) |
| Mae’n rhoi’r gorau i’r rôl rhianta. | Mae’n esgeulus/yn gamdriniol/yn gwrthod yn ystod ymweliadau. |
| Mae'n ymwneud â’r plentyn mewn ffordd gadarnhaol ac nad yw’n gamdriniol. | Mae’n annibynadwy, yn hwyr yn gyson. |
| Mae’n gymharol rhydd o anawsterau personol sylweddol (er enghraifft camddefnyddio sylweddau). | Mae’n gwadu achosi niwed/yn dangos dim edifeirwch na difaru. |
| Mae’n ddibynadwy ac yn brydlon. | Mae’n dangos i’r plentyn werthoedd sy’n groes i’r |

| | |
|---|---|
| | lleoliad (er enghraifft defnyddio cyffuriau). |
| Mae’n derbyn niwed a achoswyd i'r plentyn. | Anawsterau personol sylweddol (er enghraifft camddefnyddio sylweddau). |
| Mae’n mynegi gofid/edifeirwch. | Mae’n defnyddio cyswllt i danseilio/bygwth/ achosi gwrthdaro â’r gofalwyr. |
| Nid yw'n defnyddio cyswllt i danseilio/ bygwth neu achosi gwrthdaro â’r gofalwyr. | Risg i’r gofalwyr/bygythiadau o gipio. |

**Brodyr a chwiorydd**
Os oes cyfarwyddyd o unrhyw asesiadau perthynas/ymlyniad â brodyr a chwiorydd a gynhelir yn ystod y trafodion, dylid rhoi pwysau sylweddol i hyn. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau ynghylch a ddylid lleoli brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd neu ar wahân yn gyfystyr â phenderfyniadau ynghylch cyswllt ôl-fabwysiadu, waeth beth fo'r sefyllfa ar gyfer pob plentyn e.e. aros gyda’r teulu biolegol, plentyn sy’n derbyn gofal, mewn gofal preswyl, Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, wedi mabwysiadu gan deulu arall, byw'n annibynnol. Bydd angen ystyriaeth hefyd yn ddiweddarach mewn perthynas â brodyr a chwiorydd sy’n cael eu geni wedyn yn seiliedig ar y sefyllfa bryd hynny.

Os na chynigir cyswllt â brodyr a chwiorydd, pam mae'r penderfyniad hwn wedi'i wneud?

**Ffactorau mewn perthynas â brodyr a chwiorydd**

| **CRYFDERAU** | **RISGIAU** |
|---|---|
| **Ffactorau sy'n gysylltiedig â chyswllt cadarnhaol â brodyr a chwiorydd:** | **Ffactorau sy'n gysylltiedig â chyswllt anodd neu niweidiol â brodyr a chwiorydd:** |
| Yn seiliedig ar weithgareddau, cyfle i greu atgofion da. | Mae’r plentyn yn ail-ddioddef trawma neu mae ei adferiad yn cael ei amharu gan gyswllt. |
| Gofalwyr o gefndiroedd tebyg, gyda gwerthoedd tebyg. | Mae’r brodyr neu’r chwiorydd yn annog y plentyn i beidio â charu/ymgartrefu â’r teulu newydd. |
| Mae'r lleoliadau yn agos yn ddaearyddol. | Mae’r cadwyni cyswllt yn peri risg. |
| | Mae patrymau negyddol yn ailymddangos (er enghraifft ymddygiad rhywiol/gwneud bwch dihangol) er gwaethaf ymyrraeth. |
| | Ni all brawd neu chwaer roi’r gorau i’r rôl rhiant. |

**Cam 3 i 5: Cynllun cyswllt dros dro**

Ar ôl defnyddio Camau 1 a 2 i lywio'ch gwaith cynllunio, lluniwch y cynllun cyswllt, i ffurfio rhan o'r Cofnod Mabwysiadu Plentyn (Atodiad B) (cyn cysylltu/paru). Gall gael ei adolygu yn ystod y broses baru a'i ymgorffori yn yr Adroddiad Lleoliad Mabwysiadu/Cynllun Cymorth Mabwysiadu. Yn dilyn lleoli, gellir ei adolygu eto fel rhan o Adolygiadau Mabwysiadu.

**Cam 4: Cynllun cymorth cyswllt dros dro**

Mae cymorth priodol i bawb sy'n gysylltiedig â chyswllt yn hanfodol er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r plentyn a sicrhau y gellir ei gynnal dros amser.

**Cam 5: Adolygu'r cynllun cyswllt ar ôl mabwysiadu**

Dylai hyn ystyried safbwynt pawb, gan roi sylw arbennig i ymateb plant cyn ac ar ôl ymweliadau a'u hymddygiad yn ystod cyswllt yn ogystal â dymuniadau a fynegir ar lafar.

Ar ôl ystyried y canllawiau hyn, cwblhewch yr offeryn cynllunio cyswllt ar gyfer plentyn penodol.

NAS Contact planning tool Nov 20